**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth, ddydd Iau 8 Mai 2025**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Mike Humphreys, Vicki Spencer-Francis, Emlyn Roberts; Caroline Sanger-Davies, Dewi Hughes, Paul Savage

**Trwy wahoddiad:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Swyddogion Gweithredol:** Jose Peralta, Prif Weithredwr
Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol
Meilyr Ceredig, Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau
John Richards, Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr
Jason Craig, Arweinydd Datblygu'r Farchnad
Pip Gill, Arweinydd Ymrwymiad Brand
Russ Thomas, Arweinydd Cynaliadwyedd a Datblygu Polisi
Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth.

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd:

17 Mawrth – Hyfforddiant cyfryngol yng Nghaerdydd gyda'r Prif Weithredwr a Phennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau,
24 Mawrth – Bord Gron Gweinidogol,
27 Mawrth – Pwyllgor ETRA yng Nghaerdydd gyda'r Prif Weithredwr,
28 Mawrth – Galwad Teams gyda Chadeirydd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB),
2 Ebrill – Cyfarfod Bord Gron Gweinidogol dan arweiniad swyddog,
9 Ebrill – Bord Gron Gweinidogol dan arweiniad swyddog trwy gyfrwng Teams,
10 Ebrill – Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams.
16 Ebrill – Sefydlu Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd y Bwrdd,
28 Ebrill – Cyfarfod Llywodraethiant Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng Teams,
30 Ebrill – Cyfarfod rhwng y Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Weithredwr yng Nghaerdydd a chyfarfod Bord Gron Gweinidogol.

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Nodwyd ymddiheuriad gan Hugh Hesketh-Evans.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi ymuno â Bwrdd cwmni Wynnstay fel Cyfarwyddwr Anweithredol o 1 Ebrill 2025.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd</u>**

a) *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Mawrth 2025*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

b) *Cyfarfod diweddaru Timau'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Ebrill 2025*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd y diwygio gymeradwyaeth y Bwrdd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Rheoli Risg</u>*

Nodwyd y cyflwynir argymhellion ynghylch y lefelau risg a oddefir i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ym mis Mehefin a chyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Ymdriniwyd â'r holl faterion eraill a oedd yn codi ar yr agenda.

Nodwyd bod y cyfrifon diwedd blwyddyn 2024-25 bron â'u cwblhau a'u bod yn cyflwyno darlun cadarnhaol ar y cyfan. Mae'r archwiliad wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf.

Nodwyd hefyd bod Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2025-26 wedi'i gyflwyno i'r Dirprwy Brif Weinidog, gan ddisgwyl cymeradwyaeth derfynol.

6. **<u>I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI HCC 2025 – 2026</u>**

Cyflwynwyd yr uchod gan yr Arweinydd Ymrwymiad Brand a rhoddodd drosolwg o'r ymgyrch gan gynnwys yr ymagwedd strategol ac amcanion, y negesau, y cyfryngau a'r sianeli i'w defnyddio, gan gynnwys dulliau arloesol . Yn ogystal, cyflwynwyd yr ymchwil gynulleidfa ddiweddar a ddefnyddiwyd i lunio'r strategaeth.

Nodwyd y byddai'r ymgyrch yn datblygu negesau gwahanol ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hychwanegu at y cyflwyniad a'i rhannu gyda'r Bwrdd.

**Gweithredu: Arweinydd Ymrwymiad Brand**

Nododd y Bwrdd strategaeth yr ymgyrch.

7. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

*a. Adroddiad Darparu a Digwyddiadau i Ddod*

Cymerwyd gan y Bwrdd fod yr adroddiad yn gywir. Y prif bwyntiau allweddol oedd:

Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol

- Mae HCC mewn trafodaethau â Byrddau Ardoll ynghylch costau cynyddol prosiect Llinell Sylfaen y DG a sut orau y gall HCC gymryd rhan fel partner prosiect.

Marchnata Strategol a Chysylltiadau

- Roedd Wythnos Fawr Cig Eidion Prydain newydd orffen. Bydd y canlyniadau manwerth ar gael ar ddiwedd y mis.
- Derbyniwyd adborth gan gynhyrchwyr porc ynghylch cefnogaeth gan HCC. Yn dilyn hyn, roedd ryseitiau newydd yn cael eu datblygu, ynghyd ag astudiaethau achos o’r diwydiant a sesiynau tynnu lluniau i ddarparu deunydd y gall cynhyrchwyr ei ddefnyddio ar gyfer eu marchnata eu hunain;
- Bydd HCC yn darparu cefnogaeth i'r CFfI sy'n cynnal cystadleuaeth magu moch i ffermwyr ifainc;
- Mae HCC yn dod i ddiwedd cyfnod tair blynedd y strategaeth frand gyfredol; Mae pob agwedd ar y brandiau yn cael ei hystyried i ddatblygu'r strategaeth newydd ar gyfer y dyfodol. Defnyddir hyn i fwydo gwaith Gweledigaeth 2030,

Cyfathrebu
- Pwyllgor ETRA - roedd y Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu tystiolaeth ar 7 Mai;
- Roedd yr elfen gyfathrebu corfforaethol o waith Gweledigaeth 2030 yn parhau;
- Cafodd postiadau cyfryngau cymdeithasol ynghylch problemau methan rywfaint o sylw. Daeth hyn i ben bellach.

Y Gadwyn Gyflenwi – Cynhyrchwyr a Phroseswyr
- Mae’r gwaith yn mynd yn ei flaen i ymgysylltu â Cholegau Amaethyddol er mwyn rhoi gwybod i fyfyrwyr am waith HCC;
- Bydd HCC yn mynychu marchnadoedd da byw ledled Cymru yn ystod mis Mehefin i ymgysylltu â thalwyr ardoll fel rhan o waith Gweledigaeth 2030. Ceisiwyd cefnogaeth gan aelodau'r Bwrdd mewn marchnadoedd yn eu hardal.
- Bydd gan HCC bresenoldeb yn nigwyddiad Defaid Cymru yr NSA yn ddiweddarach ym mis Mai. Caiff yr arolwg ffermwyr Gweledigaeth 2030, ei lansio yn y digwyddiad.

Y Cadwyn Gyflenwi – Datblygu'r Farchnad
- Yn ystod y cyfnod, canolbwyntiodd y gwaith ar ddatblygu cysylltiadau ac ymgysylltu â’r sector manwerthu, y gwasanaeth bwyd a chigyddiaeth;
- Roedd HCC wedi cefnogi cogyddion Eidalaidd yn ystod ymweliad diweddar y Brenin â'r Eidal, lle roedd Cig Oen Cymru PGI wedi'i gynnwys ar y fwydlen;
- Cynhelir ymgyrch hyrwyddo Cig Oen Cymru yn UDA yn ystod Gŵyl Bwyd Ffansi Efrog Newydd;
- Cyfeiriwyd at y sioeau masnach y bydd HCC yn eu mynychu yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth ar werth Clwb y Cigyddion. Rhoddir gwybodaeth i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Arweinydd Datblygu’r Farchnad**

Roedd y Bwrdd yn amheus ynghylch nifer y sioeau haf a fynychir gan HCC. Rhoddir ystyriaeth i hyn.

**Gweithredu: Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau**

*b. Adolygiad Diwedd-Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir a chafodd y pwyntiau allweddol eu hamlygu gan Arweinydd y Cynhyrchwyr a Phroseswyr.

## 8. Rhannu Gwybodaeth

*a. Crynodeb o Fwletin y Farchnad*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*b. Dylanwad Defnyddwyr ar Brisiau'r Sector Cig Eidion*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*c. Dadansoddiad Cylch Bywyd*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

*d. Cynllun Gweithredol 2025-26*

Cymerwyd bod yr adroddiad yn gywir.

## 9. Corfforaethol

*a. Diweddariad Gweledigaeth 2030*

Cafwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr a'r Arweinydd Cynhyrchwyr a Phroseswyr.

Roedd ymgysylltiad â deg rhanddeiliad allweddol wedi dechrau a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai. Caiff yr arolwg ffermwyr ei lansio yn yr Ŵyl Ddefaid a bydd yn rhedeg am fis. Bydd yr holl adborth a dderbynnir yn cael ei ddadansoddi a bydd y canfyddiadau lefel uchaf yn cael eu hamlygu i'r Bwrdd. Bydd y cwestiynau allweddol sydd yn codi o'r ymgysylltu hwn yn sail i'r ymgynghoriad â'r diwydiant.

*b. Cytundeb Fframwaith*

Cafodd yr uchod ei gyflwyno gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae'r ddogfen Fframwaith bellach gyda'r Dirprwy Brif Weinidog i'w hystyried, cyn cael ei llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ran HCC, a'r Cyfarwyddwr Materion Gwledig ar ran Llywodraeth Cymru. Ar ôl y llofnodi, cynhyrchir llythyr cylch-gwaith ar gyfer 2025-26 a fydd yn nodi'r amcanion a gofynion allweddol ar gyfer y flwyddyn.

Trafodwyd y ddogfen a cheisiwyd eglurhad ynghylch pwynt 10.1 mewn perthynas ag unrhyw Grant Cymorth yn y dyfodol.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

Bu trafod ynghylch y cyfathrebu a allai fod yn ofynnol. Bydd canllawiau yn cael eu paratoi.

**Gweithredu: Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau**

**10.** **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

**Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

*a. I gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 31 Hydref 2024*

Cymerwyd bod yr uchod yn gywir, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

**11.** **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*c. Y Siarter Busnes Bwyd*

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu lansiad y Siarter Busnes Bwyd gan y Menywod Busnes Cig. Cafodd HCC gyfle i ymuno â'r Siarter fel sefydliad cefnogol. Bydd HCC yn adolygu ac yn trafod y Siarter ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd maes o law.

**GWEITHREDU: Prif Weithredwr / Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau**

**12.** **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 12 Mehefin 2025 am 9.30am
Cyfarfod o'r Bwrdd – Dydd Iau 10 Gorffennaf 2025 am 10.00am

**<u>Sesiwn Caeedig o Fwrdd HCC</u>**

Cafwyd cyfarfod ar wahân a chyfrinachol o'r Bwrdd wedyn.

**Llofnodwyd…………………………….**